


# ECONOMI LLESIANT LEWYRCHUS I GYMRU

## Blaenoriaethau economaidd ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru

*Crynodeb Gweithredol*

OXFAM CYMRU

iwa



*Gorffennaf 2025*

## CYDNABYDDIAETH

Ysgrifennwyd y papur trafod hwn gan **Joe Rossiter**, Cyd-gyfarwyddwr Sefydliad Materion Cymru (SMC), ac fe'i llywiwyd gan ymchwil a arweiniwyd ganddo. Fe'i hadolygwyd gan **Sarah Rees** (Pennaeth Oxfam Cymru), **Hade Turkmen** (Cynghorydd Polisi ac Eiriolaeth, Oxfam Cymru), **a Maria Drave** (Cyd-gyfarwyddwr SMC).

Hoffem ddiolch i bob cyfrannwr a rannodd eu hamser, eu mewnwelediadau a'u harbenigedd wrth lunio'r gwaith hwn.

Am ragor o wybodaeth neu i roi adborth ar y papur hwn, cysylltwch â: :

**info@iwa.org.uk** or **oxfamcymru@oxfam.org.uk**

## YNGLŶN Â'R SMC

Rydym yn felin drafod ac yn elusen, yn annibynnol o'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol. Drwy ddod ag arbenigwyr o bob cefndir ynghyd, rydym yn llunio syniadau uchelgeisiol a gwybodus sy'n sicrhau ymrwymiadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth a'n heconomi. Rydym yn darparu llwyfannau ar gyfer trafodaeth, cyfleoedd i bobl leisio eu barn, ac ymchwil sy'n gosod yr agenda. Rydym yn cael ein hariannu gan ein haelodau, ein digwyddiadau a'n sesiynau hyfforddi, a'n cefnogi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrff ariannu eraill.

## YNGLŶN AG OXFAM CYMRU

Mae Oxfam Cymru yn credu mewn byd llawer gwell, yn rhydd o anghyfiawnder tlodi. Fel rhan o deulu byd-eang Oxfam, mae Oxfam Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru ac o gwmpas y byd i fynd i'r afael â thlodi a gyrru newid yng Nghymru ac o Gymru. Mae Oxfam Cymru yn credu pan fydd pobl yn dod at ei gilydd, mae newid yn digwydd. Rydym yn ymdrechu am fyd lle mae pob un ohonom wedi'n grymuso â'r union beth sydd ei angen arnom i ffynnu.

# CRYNODEB WEITHREDOL

Mae Cymru yn wynebu moment hollbwysig. Gyda'r argyfwng hinsawdd yn dyfnhau, anghydraddoldeb yn ehangu, a gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau parhaus, mae'n amlwg nad yw'r model economaidd presennol yn addas at y diben mwyach. Mae'r maniffesto hwn, a ddatblygwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig mewn partneriaeth ag Oxfam Cymru, yn cyflwyno cynllun beiddgar ond ymarferol ar gyfer adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru – economi a gynlluniwyd i wasanaethu anghenion pobl a'r blaned, 'nawr ac am genedlaethau i ddod.

## BETH YW ECONOMI LLESIANT?

Economi Llesiant yw un lle nad twf er ei fwyn ei hun yw unig nod polisi economaidd, ond yn hytrach llesiant pawb o fewn ffiniau planedol. Mae'n herio'r syniad mai Cynnyrch Domestig Gros yw'r unig ffordd neu'r ffordd orau o fesur llwyddiant. Yn hytrach, mae'n blaenoriaethu cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb a bywoliaethau ystyrlon. Mae'n cydnabod bod economi ffyniannus yn dibynnu ar amgylchedd iach a chymdeithas lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

## MAE ECONOMI LLESIANT YN GWELD MWY O WERTH MEWN:

**Tegwch a chyfiawnder cymdeithasol** yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf posibl

**Cadernid hirdymor** yn hytrach nag enillion byrdymor

**Llesiant i bawb** yn hytrach nag unigolion yn cronni cyfoeth

# CYD-DESTUN CYMREIG UNIGRYW

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i arwain y newid hwn. Mae ganddi ddeddfwriaeth arloesol eisoes – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015—sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffyrdd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hefyd yn aelod o bartneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant, ochr yn ochr â gwledydd megis yr Alban a Seland Newydd.

Er gwaethaf y sylfeini hyn, mae Cymru yn dal i frwydro yn erbyn heriau systemig:

- Cyflogau disymud ac anghydraddoldebau rhanbarthol
- Gwaith ansicr na roir y parch priodol iddo, a hynny mewn sectorau sylfaenol megis gofal
- Gorddibyniaeth ar ddiwydiannau echdynnol a seilwaith carbon-ddwys
- Model cyllidol ac economaidd nad yw'n adlewyrchu anghenion na photensial ei chymunedau'n llawn

Er bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn setliad datganoli cyfyngedig, mae ganddi gyfryngau sylweddol wrth law – yn enwedig trwy ei phwerau dros iechyd, addysg, trafnidiaeth, cynllunio, caffael a datblygiad economaidd. Eto i gyd, mae cynnydd yn parhau i fod yn araf ac yn dameidiog.

# TUAG AT ECONOMI LLESIANT LEWYRCHUS

Mae'r maniffesto hwn yn cyflwyno achos cymhellol i Gymru ailgyfeirio ei heconomi o amgylch llesiant, gofal a chynaliadwyedd. Mae wedi'i seilio ar flynyddoedd o ymchwil ac eiriolaeth ar draws cyfiawnder economaidd, hinsawdd a rhywedd, ac mae'n adeiladu ar drafodaethau polisi eang eu cwmpas, gan gynnwys gwaith Oxfam Cymru ar *Fargen Newydd Werdd Ffeministaidd* a ffocws hirhoedlog y Sefydliad Materion Cymreig ar drawsnewid economaidd sylfaenol.

Mae'r weledigaeth wedi'i hategu gan bum blaenoriaeth strategol:

1. **Gosod cyfeiriad economaidd clir** – gyda llesiant fel ei phrif ddiben, wedi'i ategu gan gynlluniau cyflawni, cyllidebu diwygiedig, a metrigau sy'n canolbwyntio ar lesiant.
2. **Atgyweirio'r sylfeini** – gan gynnwys buddsoddiad hirdymor mewn atal, gwaith teg, a chaffael cyhoeddus moesegol.
3. **Cefnogi busnesau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol** – yn enwedig cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, a mentrau dan arweiniad y gymuned.
4. **Rheoli proses bontio deg i sero net** – sicrhau bod gweithredu ar yr hinsawdd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n bod yn barod, yn hytrach na'u hatgyfnerthu.
5. **Cyflymu arloesedd sy'n cael ei lywio gan ddiben** – trwy greu'r amodau i atebion trawsnewidiol ffynnu.

Nid gweledigaeth ddamcaniaethol yw hon. Ledled Cymru, mae enghreifftiau eisoes o brosiectau ynni dan arweiniad y gymuned, cydweithfeydd gofal iechyd, busnesau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a dulliau caffael arloesol sy'n cyflawni gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol. Yr hyn y mae ei angen 'nawr yw graddfa, uchelgais a chyd-drefniant.

## GALWAD I WEITHREDU

Wrth i ni edrych ymlaen at etholiadau'r Senedd 2026, mae hwn yn foment hollbwysig i Gymru ddangos arweinyddiaeth a rhoi llesiant wrth wraidd ei pholisi economaidd. Mae'r maniffesto hwn yn cynnig ffordd ymarferol a blaengar ymlaen – Cymru lle mae pobl a chymunedau'n ffynnu, lle ymdrinnir ag anghydraddoldeb wrth ei wreiddiau, a lle mae'r economi'n helpu i sicrhau dyfodol cyfiawn a chynaliadwy i bawb.

# YR HYN A OFYNNWN GAN LYWODRAETH NESAF CYMRU

## 1. Gosod cyfeiriad economaidd

a. **Strategaeth economaidd a chynllun cyflawni**

b. **Sefydlu cyllideb flynyddol sy'n cyd-fynd â llesiant ac sy'n gwneud y canlynol:**

   I. Yn ymdrin â gwariant mewn modd hirdymor, sy'n canolbwyntio ar gyfanswm-y-gost
   II. Yn darparu cytundebau gwariant aml-flwyddyn gyda chyrff cyhoeddus
   III. Yn cynnwys asesiad o'r gymhareb llesiant-i-gost
   IV. Yn mapio gwariant ar y Nodau Llesiant Cenedlaethol

c. **Gwella rôl adroddiad *Llesiant Cymru* i gynnwys:**

   I. Olwyn Llesiant i gyfleu cynnydd
   II. Dadl graffu yn y Senedd ar gyhoeddi
   III. Metrigau allweddol i ddarparu ffocws hirdymor ac i osod blaenoriaethau

d. **Defnyddio pwerau treth datganoledig fel mecanweithiau newid ymddygiad sy'n cyd-fynd â llesiant**

e. **Penodi Grŵp Cynghori Annibynnol ar yr Economi Llesiant**

f. **Creu Fframwaith Buddsoddi sy'n cyd-fynd â strategaeth yr economi i ddarparu blaenoriaethau ariannu ar gyfer Banc Datblygu Cymru ac eraill**

g. **Blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n ymwneud â chyfranddaliadau ecwiti cyhoeddus hirdymor mewn busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru**

# YR HYN A OFYNNWN GAN LYWODRAETH NESAF CYMRU

## 2. Atgyweirio'r sylfeini

**a. Sefydlu llinell wariant ataliol wedi'i chlustnodi yng nghyllideb Llywodraeth Cymru**

I. Gyda'r bwriad y bydd hyn yn cynrychioli cyfran gynyddol o gyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru dros amser

**b. Rhyddhau pŵer caffael cyhoeddus**

I. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn cynnal egwyddorion allweddol gwaith teg, gan gynnwys achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol
II. Gorfodi safonau'n gryfach o ran amodoldeb prosesau caffael cyhoeddus – gan ddilyn fframwaith Gwaith Teg yn Gyntaf yr Alban
III. Gosod nifer o dargedau ystyrlon i dimau caffael cyhoeddus weithio tuag atynt, e.e. canran o gaffael lleol
IV. Ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, cynnull Fforwm Llesiant mewn Caffael i ddarparu cyfleoedd dysgu, uwchsgilio a chanllawiau arfer gorau i weithwyr caffael proffesiynol yn y sector cyhoeddus

## YR HYN A OFYNNWN GAN LYWODRAETH NESAF CYMRU

**3. Cymru sydd â busnesau ffyniannus, sy'n gyfrifol yn gymdeithasol**

a. **Sefydlu Cronfa Sbarduno Busnes Cymdeithasol gyda chymorth arbenigol, cofleidiol**

b. **Gosod targedau penodol ar gyfer datblygu cwmnïau cydweithredol, busnesau cymdeithasol a busnesau achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol**

   I. Wrth ystyried mesurau pellach hefyd i archwilio effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ehangach busnesau

c. **Creu Bil Ymrymuso'r Gymuned**

   I. Gyda chymorth cofleidiol i alluogi cynaliadwyedd hirdymor, gan gynnwys Cronfa Ymrymuso'r Gymuned

## YR HYN A OFYNNWN GAN LYWODRAETH NESAF CYMRU:

### 4. Rheoli proses bontio deg i sero net

a. **Cadw'r budd economaidd o ynni adnewyddadwy**
   I. Ei gwneud yn ofynnol i rhwng 5% a 35% o bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru uwchlaw 5MW fod mewn perchnogaeth gymunedol a lleol
   II. Diwygio Cyllid Budd Cymunedol, gan gynnwys: cofrestr Budd Cymunedol, lefel sylfaenol orfodol o ddarpariaeth (£8,000 fesul MW) a sefydlu canllawiau arfer gorau

b. **Comisiynu'r gwaith o greu Map Sgiliau'r Dyfodol dan oruchwyliaeth Medr**

c. **Sefydlu Cronfa Cyfoeth Genedlaethol i hyrwyddo buddsoddiad mewn ynni gwyrdd. Dylai'r cyllid ddod o'r ffynonellau canlynol**
   I. Sicrhau 'taliadau cronfa gyfoeth' o 15% o leiaf o'r refeniw net a wneir o brosiectau gwynt mawr ar y tir ac ar y môr yn y dyfodol yng Nghymru sydd â chapasiti dros 50 MW
   II. Cyfuno'r elw o Trydan Gwyrdd Cymru
   III. Cyfuno'r cyllid buddsoddi o gynlluniau pensiwn Awdurdodau Lleol
   IV. Blaenoriaethu'r broses o sicrhau cyfranddaliadau ystyrlon mewn busnesau yn unol ag egwyddorion llesiant, a hynny fel ysgogwyr refeniw hirdymor
   V. Datganoli Ystâd y Goron i alluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y cyfoeth o'i hadnoddau naturiol

d. **Datblygu strategaeth Pontio Teg sy'n rhoi prif ffrydio cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb wrth ei gwraidd, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl wrth i ni bontio i economi sero net**

## YR HYN A OFYNNWN GAN LYWODRAETH NESAF CYMRU:

**5. Cyflymu arloesedd sy'n cael ei lywio gan ddiben**

a. Creu asiantaeth arloesedd annibynnol newydd, Labordy Cenedlaethau'r Dyfodol

b. Gosod nifer o heriau economaidd-gymdeithasol arloesedd

c. Sefydlu Cronfa Her, sy'n gysylltiedig â'r heriau uchod

d. Penodi grŵp arloesi annibynnol, hyd braich i reoli'r Gronfa Her